# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw

**Ail Fodelu y Gwasanaeth Ieuenctid**

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid

Mae darparu gwasanaeth cymorth ieuenctid yn ofyniad statudol yn unol a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn darparu cymorth ieuenctid, i bobl ifanc 11-25 oed. Yn bresennol mae'r gwasanaeth yn darparu'r cymorth hwnnw drwy weithwyr ieuenctid yn cynnal gweithgareddau a phrosiectau ar draws y rhwydwaith o glybiau ieuenctid yn y sir.

Golygai penderfyniad Her Gwynedd (Mawrth 2016) fod toriad o £200,000 ynghyd a tharged effeithlonrwydd o £70,000 i gyllideb y Gwasanaeth.

Mae adolygiad o'r Gwasanaeth yn y cyd-destun ariannol hwn yn adnabod opsiynau ar gyfer ail-fodelu'r gwasanaeth i'r dyfodol.

Mae 4 opsiwn i'w ystyried, ymgynghori arno.

| | |
|---|---|
| Opsiwn 1 | Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono (dim ond rhedeg 12 clwb ieuenctid ) a llai o grantiau i'r trydydd sector). |
| Opsiwn 2 | Dal i ddarparu yr un peth ond gwneud llai ohono ( dim ond rhedeg 14 clwb ieuenctid ) a peidio rhoi grantiau i'r trydydd sector. |
| Opsiwn 3 | Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a chomisiynu gweithgareddau a phrosiectau penodol gan partneriaid allanol. |
| Opsiwn 4 | Darparu mewn ffordd wahanol, sef Rhaglen o Weithgareddau a Phrosiectau sy'n symud o leoliad i leoliad drwy'r sir, a creu grant cymunedol i fudiadau'r trydydd sector i ddarparu gweithgareddau pobl ifanc. |

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Nia Morris – Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

| |
|---|
| Dyddiad Cychwyn - 1 Mai 2016<br>Diweddarwyd - 19.5.17<br><br>Bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn dilyn yr ymgynghoriad ac yn ôl yr angen |

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

| |
|---|
| Pobl ifanc (defnyddwyr y gwasanaeth presennol a pobl ifanc nad ydynt yn defnyddio'r gwasanaeth)<br>Staff llawn a rhan amser y Gwasanaeth Ieuenctid,<br>Partneriaid mewn Gwasanaethau eraill yn y Cyngor (ee Addysg, Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid,)<br>Partneriaid mewn Asiantaethau eraill (ee Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru, Grŵ p Llandrillo-Menai, Gisda )<br>Trydydd Sector ( yn benodol y mudiadau hynny sy'n derbyn grant oddi wrth y Gwasanaeth ieuenctid sef yr Urdd a'r Ffermwyr Ifanc, Sgowtiaid a'r Geidiaid).<br>Penaethiaid Ysgolion Uwchradd. |

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

| |
|---|
| Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn casglu barn a chael mewnbwn pobl ifanc i'r hyn maent eisiau gan y Gwasanaeth Ieuenctid yng Ngwynedd yn rheolaidd a thrwy gyfryngau amrywiol.<br><br>Rhwng Medi a Hydref 2015 bu'r Cyngor yn ymgynghori ar gynigion toriadau trwy "Her Gwynedd", a cyflwynwyd 5 cynnig ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid i gasglu adborth gan y cyhoedd (gweler linc isod 2.3).<br><br>Yn flynyddol mae y Gwasanaeth Ieuenctid yn gwerthuso ei ddarpariaeth bresennol ac yn hwyluso mewnbwn ei ddefnyddwyr, y bobl ifanc eu hunain i'r broses hon. Mae'r bobl ifanc yn cwblhau holiadur er mwyn sicrhau casglu barn aelodau am eu profiad o'r gwasanaeth. Cwblhawyd y Gwerthusiad diwethaf yn dilyn blwyddyn Clybiau 2015-16, felly dosbarthwyd yr holiaduron a'u casglu yn ystod Chwefror– Mawrth 2016, a'u dadansoddi ym Mai-Mehefin 2016.<br><br>Rhwng Hydref 2016 a Mawrth 2017 bu'r Gwasanaeth Ieuenctid, trwy Uned Gyfathrebu y Cyngor, yn ymgysylltu gyda pobl ifanc ac eraill trwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy holiaduron (gweler adroddiad isod 2.3) i adnabod blaenoriaethau ac anghenion ar gyfer y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol. |

## 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

### 2.3.1 Rhaglen Ymgynghori Her Gwynedd 2015- 2018

Wrth geisio barn y cyhoedd ar doriadau ar draws y Cyngor roedd plant a pobl ifanc yn cael y cyfle i ddatgan eu barn ar yr oll o'r 118 cynigion a gyflwynwyd.

Gweler canlyniadau yr holl gynigion isod :-
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Canlyniadau-ymgynghoriadau/Her-Gwynedd.aspx

Cyflwynwyd 5 cynnig ar gyfer newid y Gwasanaeth Ieuenctid yn yr ymgynghoriad hwn.

Derbyniwyd sylwadau gan 152 o ymatebwyr ar gyfer gwarchod cynlluniau yn y maes Plant a Phobl Ifanc. Roedd y nifer uchaf o sylwadau ym maes plant a phobl ifanc (51) yn erbyn torri grantiau ieuenctid. O'r rhain, enwodd 46 Clwb Ffermwyr Ifanc yn benodol, ac enwodd 8 yr Urdd.

23% eisiau gwarchod y grantiau ieuenctid
46.8% eisiau gwarchod y Gwasanaeth Ieuenctid a peidio a gweithredu'r toriad mwyaf.

### 2.3.2 Dadansoddiad Holiaduron Clybiau Ieuenctid 15.16

Ymatebodd 315 o bobl ifanc yr holiadur.
96% yn hapus gyda'r gwasanaeth
89% yn gwybod beth oedd yn cael ei gynnig gan y gwasanaeth
Pan ofynnwyd "Beth wyt ti'n ei hoffi am y Clwb?" nododd 232 mai cymdeithasu/gwneud ffrindiau a 194 mai gweithgareddau dysgu sgiliau.
84% o bobl ifanc yn dweud eu bod wedi cael mynegi eu barn ar beth oedd y Clwb yn ei wneud
97% o bobl ifanc yn nodi bod y gweithwyr yn gwrando arnynt
95% o bobl ifanc yn teimlo'n ddiogel yn trafod pethau personol sensitif gyda'r staff
Chwaraeon, Gweithgareddau Dysgu Sgiliau a Tripiau oedd y 3 prif gyfleoedd y dymunent ei gael
31% nodi mai parch / hunan barch oedd y prif beth iddynt ddysgu, a 29% yn nodi mai gwell addysg iechyd a iechyd rhyw ydoedd

### 2.3.3 Rhaglen Ymgysylltu y Gwasanaeth Ieuenctid – Hydref 2016 i Mawrth 2017.

Rhannwyd yr ymarferiad ymgysylltu i 2 ran:-

- Rhan 1 – Ymgysylltu wedi ei dargedu (Hydref 2016 – Ionawr 2017) a oedd yn cynnwys:

51 o Bobl ifanc 11-16 oed ar draws y sir
13 person ifanc gyda anghenion dysgu ychwanegol (Ysgol Hafod Lon)
84 o'r gweithlu rhan amser
11 o'r gweithlu llawn amser
7 cynrychiolydd o asiantaethau sy'n cefnogi pobl ifanc
14 pennaeth ysgol

- Rhan 2 – Ymgysylltiad agored (Ionawr 2017 – Mawrth 2017) a oedd yn cynnwys derbyn

ymatebion gan :
791 o holiaduron wedi eu cwblhau.

Nodir isod y Prif Negeseuon a gafwyd yn dilyn y rhaglen ymgysylltu;
https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Dewud-eich-dweud/Gwasanaeth-Ieuenctid---Taflen-adrodd-yn-ol-Cymraeg.pdf

Nodir isod rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymarferiad ymgysylltu:

- "Mae'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad pwysig i'r gymdeithas ac i fywydau pobl ifanc"
- "I think that it is vital that Youth Services are maintained as helping the young people is a serious and positive investment for the future"
- "More things to do in the area for teenagers would be great"
- "In this rural area transport is not plentiful, if they have to travel independantly, and not all parents will take and fetch. This is something to be considered. The times of trains, around the coast and how they will get home safely. To travel 10 miles may not be so simple, if they can't get home."
- "Utilise school equipment out of school hours such as technical and engineering to give youngsters a basic idea of what can be involved to show them how govt. forms can affect their future."
- "Does dim sôn yma am gyfrwng iaith a phwysigrwydd bod pobl ifanc yn cael mynediad i wybodaeth a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid sicrhau bod unrhyw hyfforddiant yn cael ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn paratoi y bobl ifanc at waith."
- "O bosib cael mwy o weithgareddau chwaraeon"
- "Mae angen cysondeb ar draws y Sir"
- Service should be flexible and tailored to individual needs eg the questions above – reasonable financial contribution and travel distances differ with each young persons circumstances"
- Mae'n rhaid i fudiad Ffermwyr Ifanc gael yr arian, neu fe fydd cefn gwlad ar goll, ac yn dirywio"
- It is important to attend different Youth Services regularly to learn about life skills and different themes of educational purposes"
- The Youth Service is an integral part of the community...by having this front line service it can prevent many issues...it provides young people a safe place to socialise and grow and often can be a sanctuary from home"

- "Any expected financial contribution should be means tested"

- "On one hand I do think that young people should contribute financially towards some activities. However, if a young person hasn't got any money or for some reason they can't afford to pay to go to a club I think there should be schemes set in place to help them with the costs and to get them into clubs and out of the streets picking up bad habits such as smoking and drugs"

## 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

### 2.4.1 Y Cyd-destun Deddfwriaethol:-

Deddf Sgiliau a Dysgu 2000.

Trwy y Ddeddf Sgiliau a Dysgu 2000, Adran 123(1), mae Gweinidogion Cymru wedi cyfeirio awdurdodau lleol i ddarparu, sicrhau darpariaeth o, neu gyfranogi yn y ddarpariaeth o wasanaethau cefnogi ieuenctid.

Adroddiad Arolwg Estyn ar Wasanaethau Cymorth Ieuenctid.

Yn yr arolwg diwethaf o wasanaethau addysg Cyngor Gwynedd yn 2013 roedd y ddarpariaeth gan y Gwasanaeth Ieuenctid yn cyfrannu yn bennaf tuag at hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles plant a phobl ifanc Gwynedd. Nododd yr adroddiad arolwg yn benodol fod "y gwasanaeth ieuenctid wedi llwyddo'n dda i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni unedau neu gymwysterau achrededig, ac o ran hyrwyddo prentisiaethau, entrepreneuriaeth a llwybrau dysgu. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth wedi'i drefnu yn dda, a chaiff dysgwyr eu cefnogi'n effeithiol".

### 2.4.2 Y Cyfeiriad Strategol a Pholisi gan Lywodraeth Cymru

Nodir isod gofynion y prif strategaethau a pholisïau sy cyfeirio Cyngor Gwynedd ar sut / beth i'w ddarparu ar gyfer pobl ifanc.

Strategaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru 2014-2018.

Cydnabyddir yr angen i weld y gwasanaeth yn parhau fel un strategol ac nid yn rhan o wasanaeth hamdden. Mae gwaith ieuenctid da yn gallu gwella presenoldeb, ymddygiad, cymhelliant a pherthnasau o fewn ysgolion. O fewn y strategaeth mae yna bwyslais yn awr ar roi rôl allweddol i weithwyr ieuenctid i gefnogi pobl ifanc i barhau mewn ymgysylltiad hefo addysg, a pharhau o fewn addysg neu hyfforddiant ffurfiol. Mae'r strategaeth yn adnabod tri maes lle dylai'r gwasanaeth ganolbwyntio, sef:

a) Mynediad at gyfleon dysgu anffurfiol a lled-ffurfiol sy'n ehangu'r gorwelion, herio meddwl a datblygu sgiliau drwy

b) Cryfhau'r perthynas strategol rhwng gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol

c) Cydlyniant gwell a mwy cyson o'r hyn mae gwasanaethau ieuenctid yn gynnig i bobl ifanc drwy'r sector gwirfoddol a statudol, i leihau dyblygu, rhannu gwybodaeth a hyrwyddo gweithgareddau sy'n cynyddu capasiti, i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n ateb gofynion cyfoes pobl ifanc.

Fframwaith Ymgysylltu a Chyflawniad Llywodraeth Cymru (2015-2018)
Mae'r ddogfen yma eto yn adnabod rôl allweddol i Wasanaethau Ieuenctid i sicrhau bod pobl ifanc 16+ yn parhau mewn addysg, hyfforddiant neu mewn gwaith.

Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru (Mawrth 2016)

Mae'r Siarter yn nodi disgwyliad sylfaenol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith ieuenctid i bobl ifanc ledled Cymru. Mae'r siarter yn nodi bydd gan bob person ifanc hawl i gael mynediad rhwydd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg at:

- Fannau cyfarfod diogel, cynnes a chyflawn, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd parhaus, gweithgareddau hamdden cyffrous ym meysydd celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd a fydd yn ehangu eu gorwelion.
- Cyfleoedd i gyfranogi mewn antur awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol.
- Cyfleoedd i gyfranogi yn y gwaith o wneud penderfyniadau trwy strwythurau anffurfiol a ffurfiol i ymgysylltu â phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol (e.e. meiri ifanc, cynghorau ieuenctid a'r Senedd). Dylai trefniadau o'r fath gyfeirio'n eglur at safonau cyfranogi; dylent fod yn seiliedig ar egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plentyn (CUHP); a dylent geisio ennyn diddordeb pobl ifanc yn y gwaith o lywio a chraffu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.
- Gwybodaeth, arweiniad a chymorth ynghylch materion sy'n eu pryderu, yn cynnwys cyflogaeth, tai a lles meddyliol. Gellir defnyddio'r gwasanaeth trwy gyfrwng cyfryngau digidol a thrwy law oedolion dibynadwy a hyfforddedig.
- Anogaeth i ddysgu rhagor am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill.
- Darpariaeth gyd gysylltiedig gan weithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd a choleg, ymestyn y 'cynnig i ddisgyblion' ac felly cyfoethogi'r cwricwlwm ffurfiol a chynorthwyo â datblygiad personol a chymdeithasol.
- Cyfleoedd i fod yn ymgyrchwyr dinesig e.e. trwy wirfoddoli.
- Cydnabod a /neu achrediad eu cyflawniadau o ran datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned hefyd.

### 2.4.3 Tystiolaeth Feintiol am y Gwasanaeth Ieuenctid.

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn casglu data perfformiad ar gyfer adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ei gyflawniad. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r data hwn ar gyfer asesu cyfraniad gwasanaeth ieuenctid tuag at eu strategaeth ieuenctid. Cyhoeddir data Gwasanaethau Ieuenctid Awdurdodau Lleol Cymru yn:

https://statswales.gov.wales/Catalogue/Education-and-Skills/Youth-Service

Yn seiliedig ar y data diweddaraf ar gyfer 2016-17 bydd y newid yma yn effeithio dros 5500 o bobl Ifanc 11 – 16 oed ar draws Gwynedd. Caiff mwy o enethod eu heffeithio, a bydd y grp oedran 11-13 oed yn cael eu heffeithio yn fwy na'r grwpiau oedran eraill.

Bechgyn – 11- 13 oed= 1458
Merched - 11 – 13 oed = 1678 – cyfanswm - 3136

Bechgyn – 14 – 16oed = 808
Merched – 14 – 16 oed = 875 – cyfanswm – 1683

Bechgyn - 17 – 19 oed = 212
Merched – 17 – 19oed = 270 – cyfanswm = 482
Bechgyn – 20 – 25 oed = 166
Merched – 20 – 25 oed = 158 – cyfanswm - 324

22.50% o'r boblogaeth 11-25 oed

2644- bachgen
2981- merch

Cyfanswm aelodau = 5625

Ystadegau Ethnigrwydd a Iaith y Gwasanaeth Ieuenctid (2016)
Gweler yma ethnigrwydd aelodau'r Gwasanaeth Ieuenctid ynghyd a niferoedd sydd yn siarad Cymraeg. Yn seiliedig ar y data diweddaraf hwn bydd yr effaith fwyaf ar bobl ifanc gwyn, a siaradwyr Cymraeg yn bennaf.

| Ethnigedd / Ethnicity | Bechgyn | Merched | Cyfanswm | Siarad Cymraeg Welsh Speaker | Bechgyn | Merched | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn/Cymraeg | 1203 | 1009 | 2212 | Rhugl | 1172 | 989 | 2161 |
| Gwyn/Prydeinig | 151 | 112 | 263 | Ychydig | 191 | 203 | 394 |
| Unrhyw gefndir gwyn arall WOTH | 6 | 4 | 10 | Dim | 20 | 8 | 28 |
| Dim eisiau datgelu | 5 | 6 | 11 | | | | |
| Heb ddatgelu | 13 | 17 | 30 | | | | |
| Gwyn/Asian/Asian Prydeinig | | 1 | 1 | | | | |
| Bangladesiadd | | 1 | 1 | | | | |
| Gwyn a Du Caribiaidd | 1 | | 1 | | | | |
| Unrhyw grwp ethnig arall | 1 | | 1 | | | | |
| Gwyddelig | 1 | | 1 | | | | |
| Indiaidd | 1 | | 1 | | | | |
| Polish | 1 | | 1 | | | | |

### 2.4.4 Mapio Darpariaeth

Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi ymgymryd a gwaith o fapio y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc yng Ngwynedd yn ystod 2016-17. Defnyddiwyd y ffynonellau canlynol fel tarddiad y wybodaeth :-
www.gwynedd-ni.org.uk
www.gwyneddgreadigol.com
www.chwaraeon.cymru
www.chwaraeonanableddcymru.com
www.urdd.cymru (rhif ffon Eryri)
www.yfc-wales.org.uk/Cymraeg (rhif ffon Eryri a Meirionydd)
www.sea-cadets.org
www.partneriaeth-awyr-agored.co.uk/cy/clwb/holl/

Mae'r gwaith mapio hwn (dim i'w gylchredeg gan nad ydym wedi casglu'r wybodaeth ar gyfer ei gyhoeddi i'r perwyl yma) yn dangos fod oddeutu 230 o glybiau cymdeithasol, clybiau chwaraeon a gweithgareddau awyr agored i bobl ifanc yn y sir.

Mae Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru wedi comisiynu gwaith i fapio y gwasanaethau a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc 16-25 oed yng Ngwynedd, ym mis Mawrth 2016.

Copy of North
Wales Provision Marcl

**2.4.5 Data am y Demograffeg Oedran**

Mae Uned Ymchwil a Dadansoddeg y Cyngor wedi tynnu ynghyd proffil o bobl ifanc 11-25 oed Gwynedd i'w ddefnyddio ar gyfer Adolygiad y Gwasanaeth.

## 2.5 Oes yna unrhyw fylchu yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu ?

Nac oes.

# 3) Adnabod yr Effaith

## 3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Oedran** | Negyddol i rai grwpiau oedran ond positif o bosib i rai eraill | Oedran 11-25 oed (Cyffredinol).<br>Yn bresennol mae'r Gwasanaeth yn cefnogi rhai 11-25 oed.<br><br>Mae opsiwn 1-4 yn parhau i gynnig cefnogi rhai 11- 25 oed.<br><br>Bydd unrhyw un o'r opsiynau fodd bynnag yn golygu fod llai o ddarpariaeth na'r presennol.<br><br>Mae opsiwn 1 a 2 yn awgrymu parhau i gadw'r gwasanaeth yn agored i unrhyw un rhwng 11-25 oed.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu symud i batrwm o ddarpariaeth gweithgareddau a phrosiectau agored i unrhyw un 11-19 oed a gwaith wedi ei dargedu yn unig i rai 16 oed a throsodd, sef dim ond cefnogi rheiny nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith.<br><br>Mae data aelodaeth yn dangos mai dim ond 5% o'r aelodau presennol (324 allan o 5625) sy'n 19-25 oed. Mae'r data yn cadarnhau hefyd fod y grŵp oedran hynach yma yn aelodau oherwydd eu bod yn defnyddio ein cyrsiau Parodrwydd i Waith neu eu bod yn cael eu targedu er mwyn eu symud ymlaen i Addysg, Hyfforddiant neu i Waith.<br><br>Lleoliadau i gael mynediad i'r Gwasanaeth<br>Mae'r ddarpariaeth 'agored' presennol (sef y clybiau ieuenctid) yn bwyntiau mynediad statig mewn 42 cymuned.<br><br>Mae opsiwn 1 a 2 yn awgrymu cwtogi'r nifer o glybiau i 10 neu 14. Bydd pobl ifanc yn y cymunedau ble y bwriedir cau clwb yn colli darpariaeth. Bydd disgwyl i BOB person ifanc sydd eisiau mynychu clwb deithio i un o'r 10 neu 14 lleoliad yma. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae Opsiwn 1 a 2 yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y bobl ifanc i gyrraedd y gwasanaeth.<br><br>Mae Opsiwn 1 a 2 yn golygu mai dim ond drwy fynychu Clwb y gall pobl ifanc gael mynediad i'r gwasanaeth<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu symud i ffwrdd o redeg clybiau statig yn gyfan gwbwl. Mae Opsiwn 3 a 4 yn awgrymu sefydlu rhaglen o gweithgareddau / prosiect sy'n ymweld gyda cymunedau drwy'r sir gan symud lleoliadau yn rheolaidd.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn rhoi cyfrifoldeb ar y gwasanaeth i gyrraedd pobl ifanc.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn golygu y gall pobl ifanc gael mynediad i'r gwasanaeth drwy'r ysgol, yn eu cymuned a drwy gyfryngau cymdeithasol.<br><br>56% o'r bobl ifanc gwblhaodd yr holiadur wedi adrodd eu bod yn hapus i deithio (10 milltir), 30% wedi anghytuno a 14% yn nodi dim barn.<br><br>Gall opsiwn 3 a 4 olygu na fydd gan rai bobl ifanc, yn enwedig y rhai mwyaf bregus, ofod diogel yn eu cymunedau y gallent droi iddo. Mae rhai o'n aelodau presennol yn defnyddio'r clybiau fel man cyfarfod saff, man i loches oddi wrth amgylchiadau gartref, yn fan diogel i gwrdd gyda gweithwyr proffesiynol.<br><br>Mae 98% a gwblhaodd yr holiadur yn cytuno ei bod yn bwysig i bobl ifanc gael cyfleoedd i gymdeithasu drwy y Gwasanaeth Ieuenctid ac maent eisiau hyn trwy gael lle saff i ddod at eu gilydd a thrwy waith prosiect.<br><br>-<br><br><u>Amseroedd i gael mynediad i'r gwasanaeth.</u><br><br>Mae'r ddarpariaeth presennol (sef y clybiau ieuenctid) yn bwyntiau mynediad statig mewn 42 cymuned am 30 wythnos y flwyddyn yn unig (tymor ysgol) yn y mwyafrif o leoliadau, ac wedi eu cyfyngu i nosweithiau penodol am yr wythnosau hynny.<br><br>Nid oes capasiti yn y ddarpariaeth bresennol i berson ifanc gysylltu gyda gweithiwr ieuenctid y tu allan i'r adegau hyn, ar amser sy'n gyfleus ac yn addas iddyn nhw. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae opsiwn 1 a 2 yn cyfyngu'r ddarpariaeth yma i 10 neu 14 cymuned mewn tymor ysgol yn unig ond yn parhau wedi ei gyfyngu i 2 awr ar nosweithiau penodol.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn ar gael gydol y flwyddyn, gyda'r oriau yn amrywio o ddiwedd prynhawn, i gyda'r nos, i benwythnos, i dymor ysgol a gwyliau ysgol. Ond bydd y ddarpariaeth yn llai fin nos.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn rhoi hyblygrwydd o ran lleoliadau ac amseroedd sy'n golygu bod mwy o gyfleon i bobl ifanc ddod i gyswllt gyda'r gwasanaeth. Bydd y cyfleon hynny fodd bynnag yn llai yn ei gyfanrwydd, ac hefyd yn fyrrach o ran hyd y cyswllt pan mewn lleoliad penodol.<br><br>Nododd 429 o'r holiaduron y byddai pobl ifanc eisiau mynediad / cyswllt i weithiwr ieuenctid drwy'r ysgol a parhau i wneud gwaith ieuenctid yn eu cymunedau.<br><br><u>Gweithwyr Ieuenctid ac Ysgolion.</u><br>Nododd 429 o'r holiaduron fod pobl ifanc eisiau medru gwneud cyswllt gyda gweithiwr ieuenctid drwy'r ysgol.<br><br>Mae'r ddarpariaeth Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned presennol ar gael mewn <u>rhai ysgolion</u> yn unig oherwydd y'i hariannir drwy grant.<br><br>Nid oes capasiti yn Opsiwn 1 a 2 i roi adnodd Gweithiwr Ieuenctid mewn unrhyw ysgol uwchradd oni bai y'i ariennir yn allanol.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn sicrhau y bydd y gwasanaeth yn gallu trefnu i weithwyr ieuenctid a chymuned gysgodi 2 neu 3 ysgol uwchradd. Byddai pobl ysgol uwchradd a chyswllt gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid.<br><br>-<br><u>Oedran 16-25 oed</u><br><br>Presennol mae nifer fechan o bobl ifanc 16 oed a throsodd yn ymwneud a'r gwasanaeth ( oherwydd nid ydynt eisiau mynychu Clwb Ieuenctid gyda rhai ieuengach).<br><br>Mae opsiwn 1 a 2 yn awgrymu parhau i gynnig clybiau ieuenctid fel ei ddarpariaeth i rai 16 oed a throsodd.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu newid yr hyn sy'n cael ei gynnig i bobl ifanc 16 oed a throsodd, ond ei fod wedi ei dargedu i rai nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na |

| | | |
|---|---|---|
| | Positif i'r rhai fydd yn cael eu targedu | gwaith yn unig.<br><br>Bydd y ddarpariaeth agored yn parhau ar i gael i rai hyd at 19 oed, ac mae ystadegau eisoes yn dangos nad oes defnyddwyr yn y grŵp oedran 19-25 oed yn dymuno defnyddio'r ddarpariaeth agored ( clybiau, gweithgareddau)<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn awgrymu y byddwn yn darparu gweithiwr allweddol i bob person ifanc 16-25 oed sydd wedi ei adnabod drwy systemau tracio Gyrfa Cymru (Haen 1 a 2), waeth lle mae nhw'n byw. |
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim effaith wedi ei adnabod o'r dystiolaeth | Rydym yn rhagweld yr un effaith ar draws yr opsiynau a ystyrir.<br><br>Mwyafrif aelodaeth y Gwasanaeth Ieuenctid yn wyn.<br><br>Mae Opsiwn 3 a 4 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r gwasanaeth ymgysylltu a chyrraedd cymunedau a grwpiau o bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig wrth symud lleoliadau ei gweithgareddau. |
| **Yr iaith Gymraeg** | Effaith negyddol posib o ganlyniad i leihad yn y gwasanaeth a cynigir drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws y Sir.<br><br>Gall fod ag effaith bositif ar y rhai sydd yn cael mynediad i'r gwasanaeth am y tro cyntaf drwy weld gweithgareddau a phrosiectau ieuenctid cyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnal yn eu pentref. | Mae dull darparu a holl weithgareddau'r Gwasanaeth yn cael eu  cynnig trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog ar hyn o bryd. Mae'n rhoi'r cyfle i bobl Ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymysgu yn yr iaith o'u dewis. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn hyrwyddo'r Iaith Gymraeg yn barhaus trwy addysg, sgiliau a rhoi cyfleoedd i gymdeithasu, ac yn cynnal sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith.<br><br>Mae opsiwn 1 – 4 i gyd yn cynnig parhau i gynnig gweithgareddau a prosiectau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Cymraeg.<br><br>Mae opsiwn 1-4 i gyd yn golygu llai o gyfleon mewn cymunedau i bobl ifanc ddefnyddio eu Cymraeg/<br><br>Mae i bob opsiwn effaith ar 2 fudiad trydydd sector (Urdd / Ffermwyr Ifanc) sydd yn cyfrannu tuag at gefnogi pobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Gall rhai siaradwyr Cymraeg ifanc weld lleihad yn nifer y cyfleon cymdeithasoli ddefnyddio yr iaith pe bai'r mudiadau hyn yn methu a cynnal eu clybiau / aelwydydd. |
| **Anabledd** | Dim effaith wedi ei | Mae'r dull darparu presennol yn rhedeg Clybiau Ieuenctid Derwen  (Tîm Integredig Plant Anabl) er mwyn |

| | | |
|---|---|---|
| | adnabod dan 16 oed ond gall fod yn bositif yn yr oedran 16+ os caiff pobl ifanc eu targedu | gweithio hefo pobl Ifanc anabl.<br><br>Mae opsiwn 1 a 2 yn nodi y bydd y 10 neu 14 clwb ieuenctid yn agored i bobl ag anableddau fynychu'r clybiau prif-ffrwd ( yn ddibynnol ar eu gallu, gallu i deithio ac ati) ond yn hwyluso integreiddio a cymdeithasu gyda cyfoedion.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn caniatáu i'r 2 ysgol uwchradd anghenion arbennig gael cyswllt gyda gweithiwr ieuenctid i ddarparu prosiect ieuenctid.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn annog pobl ifanc anabl i fynychu prosiectau ar draws y Sir, yn annog integreiddio i'r prif lif fydd yn cefnogi pobl ifanc i gymysgu gyda'u cyfoedion.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 wrth symud o amgylch y sir yn rhoi gwell cyfle i'r gwasanaeth fynd i'r afael a unigedd ymysg pobl ifanc sy'n achosi pryderu ac effaith ar lesiant meddyliol.<br><br>Mae opsiwn 3  a 4 yn targedu pobl ifanc 16 oed a throsodd nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na gwaith. Mae pobl ifanc ag anabledd yn fwy tebygol o wynebu rhwystrau rhag cael gwaith / hyfforddiant, felly gall yr opsiynau hyn sicrhau eu bod yn derbyn cefnogaeth. |
| **Rhyw** | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o'r dystiolaeth | Mae'r nifer o fechgyn a merched sydd yn ymwneud a'r Gwasanaeth presennol yn eithaf cyfartal (gweler ffigyrau'r Gwasanaeth yn 2.4.3 uchod).<br><br>Nid ydym yn rhagweld y bydd gweithredu unrhyw un o'r opsiynau yn cael mwy na lai o effaith ar ferched neu fechgyn. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim gwybodaeth am effaith posibl | Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd o ran cyfeiriadedd rhywiol y defnyddwyr presennol – nid yw'r data yn cael ei gasglu ar gyfer y grŵp oedran 11-16 oed.<br><br>Ni allwn rhagweld os bydd mwy neu lai o bobl ifanc, oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, yn dewis ymwneud a'r gwasanaeth ynghlwm ag unrhyw un o'r opsiynau. |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o'r dystiolaeth | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar bobl ifanc o gr?p crefydd penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Ailbennu rhywedd** | Dim gwybodaeth am effaith posibl | Nid oes tystiolaeth ar hyn o bryd o ran defnyddwyr presennol sy'n dymuno / wedi ailbennu rhywedd – nid yw'r data yn cael ei gasglu ar gyfer y grŵ p oedran 11-16 oed.<br><br>Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar bobl ifanc sy'n dymuno / wedi ailbennu rhywedd o weithredu unrhyw un o'r opsiynau. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim effaith negyddol wedi ei adnabod o'r dystiolaeth | Nid yw'r Gwasanaeth yn casglu data ar lefelau beichiogrwydd ei ddefnyddwyr.<br><br>Nid ydym yn rhagweld effaith benodol ar ferched sy'n feichiog / mamolaeth o weithredu unrhyw un o'r opsiynau. |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | Nid ydym yn rhagweld effaith benodol o weithredu unrhyw un o'r opsiynau ar briodas / bartneriaeth sifil ymysg y grŵp oedran. |

### 3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma?

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Dylid dileu'r rhai amherthnasol** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Gall helpu i gael gwared ar gam-wahaniaethu | Mae cefnogaeth gweithwyr ieuenctid yn gallu bod o help mawr i rai pobl ifanc hefo nodweddion cydraddoldeb sy'n mynd drwy amser anodd.<br><br>Mae opsiwn 1 a 2 yn nodi y bydd Gweithwyr Ieuenctid ar gael i bobl ifanc ddelio gyda camwahaniaethu – ond mae'n ddibynnol ar y bobl ifanc yn dod i un o'r 10 neu 14 lleoliad a awgrymir yn yr opsiynau hyn.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn nodi y bydd Gweithwyr Ieuenctid ar gael i bobl ifanc ddelio gyda chamwahaniaethu ac yn gallu mynd at y bobl ifanc yn eu hysgol / cymuned hwy yn nol yr angen. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi / Nac ydi – eto'n ddibynnol ar y sefyllfa | Fel uchod mae'n ddibynnol ar os ydi'r person ifanc yn derbyn llai o wasanaeth neu'n derbyn gwasanaeth o'r newydd o'i gymharu a'u sefyllfa bresennol. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi / nac ydi – eto'n ddibynnol ar y sefyllfa | Fel uchod mae'n ddibynnol ar os ydi'r person ifanc yn derbyn llai o wasanaeth neu'n derbyn gwasanaeth o'r newydd o'i gymharu a'u sefyllfa bresennol. |

**3.3 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar faterion eraill nad ydynt yn ymwneud a nodweddion cydraddoldeb pobl? Manylwch.**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith? (dylech ddileu'r rhai amherthnasol)** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Gofodol** | Negyddol mewn rhai cymunedau ond positif mewn rhai eraill | Effaith negyddol ar 32 cymuned yn Opsiwn 1 – llai o ddarpariaeth.<br><br>Effaith negyddol ar 28 cymuned yn Opsiwn 2 – llai o ddarpariaeth.<br><br>Effaith negyddol ar 42 cymuned ble mae clwb ieuenctid ar hyn o bryd yn Opsiwn 3 a 4 – llai o ddarpariaeth. Ond effaith bositif ar y cymunedau hynny y bydd y Gwasanaeth yn ymweld a hwy yn ystod blwyddyn i ddarparu gweithgareddau. |
| **Difreintedd a Thlodi** | Negyddol i rai pobl ifanc. | <u>Ariannol</u><br>Mae'r ddarpariaeth presennol yn wasanaeth am ddim.<br><br>Mae'r Gwasanaeth presennol yn trefnu gweithgareddau a thripiau yn achlysurol a codi ffi ar fynychu'r gweithgareddau hyn fel cyfraniad tuag at y gost.<br><br>Mae Opsiwn 1 i 4 yn parhau i nodi gwasanaeth am ddim.<br><br>Nododd 67% o'r ymatebwyr i'r holiadur ymgysylltu y dylai pobl ifanc gyfrannu yn ariannol tuag at rai gweithgareddau penodol, a 18% yn anghytuno a 15% heb farn.<br><br><u>Difreintedd Cymdeithasol ac Economaidd.</u><br>Mae'r ddarpariaeth bresennol gyda presenoldeb clwb ym mhob un o'r cymunedau difreintiedig (yn unol a diffiniad Llywodraeth Cymru). Golyga hyn fod Clwb Ieuenctid ar gael ym Maesgeirchen a Caernarfon.<br><br>Yn ychwanegol i hyn mae'r Gwasanaeth yn derbyn grantiau ychwanegol ar gyfer targedu yr ardaloedd hyn ee grant SBLASH ar gyfer gweithgareddau'r haf ym Maesgeirchen a Caernarfon; grant Cymunedau'n Gyntaf ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned ym Maesgeirchen a Caernarfon.<br><br>Fodd bynnag mae'r gwaith proffilio pobl ifanc Gwynedd |

| | | |
|---|---|---|
| | | (gweler 2.4.5 uchod) a chanfyddiadau'r adolygiad yn gyffredinol wedi adnabod fod pobl ifanc yn gallu wynebu rhwystrau, yn wynebu heriau wrth dyfu i fyny, ac yn gallu bod yn dadgysylltu rhag addysg, hyfforddiant neu waith waeth lle mae nhw'n byw. Mae crynhoad uwch o bobl ifanc fregus, ac anghenion yn y llefydd mwyaf trefol megis Maesgeirchen a Caernarfon ond nid yw'r materion / heriau yn unigryw i'r ardaloedd hynny.<br><br>Mae opsiwn 1 a 2 yn sicrhau fod gan y Gwasanaeth bresenoldeb yng nghymunedau Maesgeirchen a Caernarfon.<br><br>Mae opsiwn 3 a 4 yn golygu na fydd presenoldeb barhaol yn Maesgeirchen na Caernarfon, ond yn hytrach y bydd gweithgaredd yn cael eu cynnal yno yn achlysurol.<br><br>Nid oes unrhyw un o'r opsiynau yn sicrhau y bydd pobl ifanc sy'n wynebu tlodi yn gallu cael mynediad i'r gwasanaeth.<br><br>Mae'r gwaith Mapio Darpariaeth ( gweler 2.4.4 uchod) yn adnabod fod prinder clybiau cymdeithasol am ddim i bobl ifanc yn yr ardaloedd di-freintiedig hyn – gall cost ymaelodi gyda clybiau eraill atal pobl ifanc rhag manteisio ar y cyfleon eraill sydd ar gael yn lleol. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

### 4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

| |
|---|
| Mae'r asesiad cychwynnol wedi adnabod y canlynol :<br><br>Gall pob opsiwn yn sicrhau y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid ar agor i bobl ifanc rhwng 11 – 25 oed.<br><br>Gall pob opsiwn gael effaith negyddol ar y grŵp oedran 11-16 oed oherwydd cwtogiad yn y ddarpariaeth fydd ar gael.<br><br>Gall opsiwn 3 a 4 gael effaith bositif ar y grŵp oedran 16-25 oed oherwydd ei fod yn cynnig gwasanaeth penodol wedi ei dargedu i'w anghenion.<br><br>Gall opsiwn 1 a 2 gael effaith negyddol ar gymunedau penodol (28 i 32 ohonynt) ond effaith bositif yn y 10 i 14 cymuned ble lleolir Clwb.<br><br>Gall opsiwn 3 a 4 gael effaith negyddol ar 42 cymuned drwy symud i ffwrdd oddi wrth ddarparu clybiau ynddynt, ond effaith bositif mewn nifer o gymunedau y byddai'r gwasanaeth yn ymweld a hwy mewn blwyddyn o raglen gweithgareddau.<br><br>Gall pob opsiwn gael yr un effaith bosibl ar grwpiau gwarchodedig.<br><br>Gall pob opsiwn gael effaith negyddol ar Siaradwyr Cymraeg Ifanc gan fod lleihad yn y cyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br><br>Gall opsiwn 3 a 4 gael yr effaith fwyaf negyddol ar y cymunedau difreintiedig. |

Nid ellir symud i'r camau nesaf ar hyn o bryd gan fod angen ymgynghori i sicrhau ein bod wedi adnabod yr effeithiau posibl i gyd, ac yn gywir, ac adnabod ffyrdd o'u lliniaru.

### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| |